

DOLEN Y TAB 104

29 – 30 Ebrill 2022

Oedfa Fore Sul 1 Mai am 11

Oedfa gymun yng ngofal Ann ac Emlyn Davies gyda Sian Elin wrth yr organ.

YR OEDFAON NESAF

Mai

- 8 Yng nghwmni'r Parchedig Aled Edwards a Iestyn Morris
- 15 Sul Cymorth Cristnogol
- 22 Gethin Rhys
- 29 Geraint Rees

Hefyd ddydd Sul 24 Ebrill

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth gorseddu Andy John yn Archesgob yr Eglwys yng Nghymru.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol - Elfed ap Nefydd

Yr wythnos hon, y diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts sy'n cael ein sylw ni, gŵr a wnaeth gyfraniad disglair nid yn unig fel addysgwr ond hefyd fel pregethwr, gweinidog, darlledwr ac awdur.

E-Fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

O'r Diwedd

Mae'n anodd credu y bydd modd mynychu oedfaon yn y Tabernacl o fore Sul ymlaen, a hynny am y tro cyntaf ers ail-agor y drysau ar ddechrau Medi y llynedd, heb bod unrhyw gyfyngiadau megis gorfodaeth i wisgo mwgwd a chadw pellter cymdeithasol. Rydym yn deall y bydd rhai ohonoch am barhau i wisgo gorchudd wyneb am y tro ond serch hynny hyderwn na fydd y newid yn rhwystr rhag mynychu'r oedfaon. Gobaith pob un ohonom yw y byddwn yn medru dychwelyd yn barhaol i sefyllfa normal dros yr wythnosau nesaf.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 2022 15-21 Mai

Bydd Apêl WCC eleni yn casglu arian i helpu Zimbabwe, sy'n dioddef newyn difrifol yn sgil newid hinsawdd. Ar ben hynny, mae prisiau bwyd wedi codi'n aruthrol yno oherwydd Rhyfel Putin yn Wcráin. Byddwn yn defnyddio'r dulliau a fabwysiadwyd ar ddechrau'r pandemig yn 2020 (sieciau a throsglwyddiadau banc) ar gyfer ein casgliad ni, ond bydd amlenni yng nghyntedd y capel i'r rhai sy'n dymuno eu defnyddio.



Mae teulu Jessica ymhlith trigolion Zimbabwe sy'n wynebu problemau enbyd.

Bydd modd cyfrannu drwy gydol mis Mai, a bydd Casgliad Wcráin yn dod i ben dros dro, ac yn aildechrau ym mis Mehefin.

Sieciau: yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf., gan nodi Wythnos Cymorth Cristnogol, at:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Trosglwyddiad Banc: gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol

Côd Didoli: 30 - 96 - 72
Rhif Cyfrif: 03607499

Gyda diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

CROESAWU'R CWRDD CHWARTER

Nos Fercher 25 Mai byddwn yn croesawu Cwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg i'r Tabernacl. Er mai Dwyrain Morgannwg yw'r enw swyddogol, mae'n cynrychioli dros ugain o eglwysi sy'n ymestyn o Gasnewydd yn y dwyrain i Borth-cawl yn y gorllewin a Threorci i'r gogledd.

Mae'n briodol iawn mai yma yn Efail Isaf y cynhelir y Cwrdd Chwarter y tro hwn gan mai prif eitem y cyfarfod fydd lansiad swyddogol Ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg - maes eithriadol o bwysig ond un a oedd hyd yn ddiweddar wedi ei anwybyddu ar y cyfan gan yr enwad a'r capeli. Efallai nad yw pawb yn ymwybodol mai un o aelodau'r eglwys hon, Emlyn Davies, sydd wedi chwarae rhan cwbl ganolog i wireddu cynnal yr ymgyrch a ddechreuodd ei thaith yn y Cwrdd Chwarter a gynhaliwyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth yn Chwefror 2019.

Eisoes mae cyrddau chwarter dau o gyfundebau Undeb yr Annibynwyr wedi cael rhagflas o'r ymgyrch mewn cyflwyniadau rhithiol gan Emlyn dros Zoom. Ond cyfarfod 'byw' fydd gennym ni yn Efail Isaf, gan mai yma y caiff y ffeil 96 tudalen ei lansio'n swyddogol cyn cael ei dosbarthu i 400 o gapeli annibynnol. Er mai'r ffeil fydd yn gosod sail i'r ymgyrch, nid dyma'r cyfan - bydd hefyd yn cynnwys fideo a nifer o ddeunyddiau digidol ynghyd â chyfres o weithgareddau amrywiol er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch bwysig hon ar draws Cymru gyfan a thu hwnt. **Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn gofyn am eich cymorth i groesawu aelodau eglwysi'r Cyfundeb i'r Cwrdd Chwarter yn y Tabernacl nos Fercher 25 Mai.**



Adloniant gan

Te Parti'r Ysgol Sul

Dydd Sul Mai 8fed
11.15 - 1.00
Neuadd y Pentref

Rhaid archebu lle o flaen llaw
Enwau i Eleri Mai, Manon neu Caroline



BABI TWM

Y Ganolfan,
Capel Tabernacl

10.00-11.30

25ain Ebrill, 9fed, a 23ain o Fai

Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i
plant/wyrion/wyresau

Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd
a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.



CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

CWRDD CHWARTER

7.30
Nos Fercher 25 Mai 2022
Capel y Tabernacl, Efail Isaf

Lansiad Ymgyrch
Eglwysi
Dementia-gyfeillgar

CROESO I BAWB



Coffi a Sgws

Canolfan y Tabernacl

Bob bore Mawrth
10.30-12.00

Efail Isaf

Croeso i bawb

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk